**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Ceredigion**
**Public Services Board**

Caru·Love Ceredigion

| Eitem | Dyddiad | |
|---|---|---|
| | 1/05/25 | |
| Teitl | | Er |
| Diweddariad am Gorwel | | Gwybodaeth |
| Crynodeb o'r Materion | | |

Oherwydd bod amser wedi'n trechu ni yn y cyfarfod diwethaf, gofynnwyd i mi baratoi diweddariad i'r aelodau am raglen / Dangosfwrdd Data Gorwel.

Byddwch yn cofio ein bod ni wedi bod yn cydweithio â'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws rhanbarth de-orllewin Cymru i ddatblygu rhaglen ddata o'r enw Gorwel a'r gobaith oedd y byddai'r rhaglen hon yn ein cynorthwyo yn y dyfodol wrth i ni baratoi ein Hasesiadau o Lesiant Lleol a chasglu data. Roedd y Grant Cymorth Rhanbarthol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ariannu'r datblygiad hwn.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen wedi bod yn mynd rhagddo ers cryn amser a dros y 18 mis diwethaf rydym wedi llwyddo i wneud mwy o waith ar y prosiect ar ôl recriwtio cydlynydd data rhanbarthol (sydd hefyd yn cael ei ariannu gan y Grant Cymorth Rhanbarthol).

Yn anffodus, bu heriau technegol ac oedi parhaus wrth ddatblygu'r rhaglen. Yn fwy diweddar mae rhai amheuon sylweddol wedi codi ynglŷn â photensial y rhaglen i ddiwallu ein hanghenion, er gwaethaf ymdrechion helaeth ein Cydlynydd i gefnogi'r datblygwyr.

Oherwydd y ffactorau hyn, daethpwyd i gytundeb gyda Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i ddatblygu ymhellach ar raglen Gorwel ac yn lle hynny, i ddefnyddio grant cymorth rhanbarthol y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wella ein mynediad at ddata a'r gwaith ymgysylltu ar lefel gymunedol.

**Gweithgarwch rhanbarthol**
Bydd y cydlynydd data rhanbarthol, Neil Coetzee, yn parhau i weithio ar draws y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan roi arweiniad i'r Byrddau a'u cynorthwyo i nodi a chanfod ffynonellau a chyfleoedd ar gyfer sicrhau gwell ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol.

Yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar ddatblygu ein defnydd o ffynonellau data cenedlaethol ffurfiol, caiff rôl y cydlynydd ei hehangu i gynnwys y gwaith o ganfod a defnyddio'r ffynonellau o wybodaeth gymunedol sy'n anoddach eu cyrraedd. Bydd hyn yn cyfrannu at wella'r Asesiad o Lesiant Lleol, yn ogystal â chynlluniau eraill yn y dyfodol.

| |
|---|
| Goblygiadau Ariannol |
| Ddim yn berthnasol |
| Argymhelliad |
| Bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi’r diweddariad am Gorwel. |
| Atodiadau |
| |
| Swyddog Adrodd |
| Timothy Bray |